Dyma eich

Haf o Hwyl
Summer of Fun

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Darpariaeth yn ystod Gwyliau'r Haf

Plant Anabl

2022

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Darpariaeth i Blant Anabl yn ystod Gwyliau Haf 2022

Ein nod yw darparu'r ystod fwyaf o opsiynau i blant a theuluoedd ar draws y sir.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi manylion am yr opsiynau i ddewis o'u plith ac yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer archebu a gwneud ymholiadau am y gwasanaeth unigol.

Mae 3 adran yn y canllaw hwn:

1. Clybiau a Gweithgareddau Gwyliau Arbenigol i Blant Anabl

2. Clybiau Gwyliau nad ydynt yn rhai arbenigol a allai roi cymorth i Blant Anabl

3. Cymorth Ychwanegol i Blant a Theuluoedd sy'n agored i'n Tîm Anabledd.

1. Darpariaeth Arbenigol

Gwasanaethau ar gyfer plant anabl na allant gael mynediad i glybiau neu ddarpariaethau prif ffrwd yw'r rhain. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu cynnal gan ddarparwyr arbenigol sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn cael eu comisiynu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Darparwr Gwasanaeth	Family Support Wales
Beth fydd yn cael ei ddarparu?	Clwb Gwyliau o Ysgol Heol Goffa yn Llanelli
Ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth?	Plant anabl na allant gael mynediad i glybiau prif ffrwd 5 diwrnod yr wythnos Wythnos yn dechrau 1 Awst, 2022, o dan 12 oed Wythnos yn dechrau 8 Awst, 2022 - dros 12 oed Wythnos yn dechrau 15 Awst, 2022, o dan 12 oed Wythnos yn dechrau 22 Awst, 2022 - dros 12 oed Am 4 wythnos - 2 wythnos i rai dan 12 oed a 2 wythnos i rai dros 12 oed. Uchafswm o 12 plentyn fesul sesiwn 10am-3.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener
Manylion Cyswllt ac Archebu	Bydd pob archeb ar gyfer y clwb gwyliau yn mynd trwy Elen Jones, Swyddog Comisiynu (anghenion cymhleth). A fyddech cystal â chwblhau a dychwelyd y ffurflenni erbyn dydd Gwener, 1 Gorffennaf 2022. Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl am y dyddiadau sydd wedi cael eu pennu. Cysylltwch ag Elen ar: elijones@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 246548 Dilynwch y ddolen hon i gael y ffurflen archebu: https://forms.office.com/r/nfr2Pg9123
Y Gost	£15 y diwrnod

Darparwr Gwasanaeth	DrMz Caerfyrddin
Beth fydd yn cael ei ddarparu?	Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn hwyluso clwb i blant hŷn am 6 dydd Llun yn ystod gwyliau'r haf. Bydd hyn yn cynnwys: celf a chrefft, teithiau dydd, sinema, a bowlio. Dydd Llun, 18 Gorffennaf Dydd Llun, 25 Gorffennaf Dydd Llun, 1 Awst Dydd Llun, 8 Awst Dydd Llun, 15 Awst Dydd Llun, 22 Awst
Ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth?	Plant 16+ oed
Manylion Cyswllt ac Archebu	Dylid e-bostio'r ffurflen archeb at Elen Jones erbyn 24 Mehefin a bydd lleoliad yn cael ei gadarnhau erbyn 1 Gorffennaf, 2022. Bydd y ffurflen archebu hon yn cael ei dosbarthu gan eich gweithiwr allweddol ac os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'ch gweithiwr allweddol. Cysylltwch ag Elen ar: elijones@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 246548
Y Gost	£15 y diwrnod

Darparwr Gwasanaeth	Cywion Bach
Beth fydd yn cael ei ddarparu?	Gweithgareddau awyr agored fydd y rhain a byddant yn cael eu cynnal yn y coetiroedd sydd ar y safle. Bydd gweithgareddau gwahanol yn cael eu cynnal bob dydd Mercher. Bydd y diwrnodau gweithgareddau yn cael eu cynnal yn Cywion Bach, Yr Hen Ysgol, Idole, Caerfyrddin SA32 8EB Bydd y sesiynau'n cael eu cynnal rhwng 10am a 4pm ar y dyddiau canlynol: Dydd Mercher, 27 Gorffennaf, 2022 Dydd Mercher, 3 Awst, 2022 Dydd Mercher, 10 Awst, 2022 Dydd Mercher, 17 Awst, 2022 Dydd Mercher, 24 Awst, 2022 Dydd Mercher, 31 Awst, 2022
Ar gyfer pwy mae'r cynllun?	Plant 4-10 oed
Manylion Cyswllt ac Archebu	Dylid e-bostio'r ffurflen archeb at Elen Jones erbyn 24 Mehefin a bydd lleoliad yn cael ei gadarnhau erbyn 1 Gorffennaf, 2022. Bydd y ffurflen archebu hon yn cael ei dosbarthu gan eich gweithiwr allweddol ac os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'ch gweithiwr allweddol. Cysylltwch ag Elen ar: elijones@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 246548
Y Gost	£15 y diwrnod

Darparwr Gwasanaeth	Pecynnau Pwrpasol
Beth fydd yn cael ei ddarparu?	Dros yr haf, bydd gennym docynnau dydd/talebau gwahanol ar gael i blant/pobl ifanc, megis: Mynediad i Folly Farm, Canolfan y Gwlyptir Llanelli, Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Parc Gwledig Pen-bre, tocynnau sinema, bowlio, Surfability,
Ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth?	Plant 0-25 oed Pobl /pobl ifanc anabl ag anghenion cymhleth. Dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael. Bydd modd i'r teuluoedd ddefnyddio'r tocynnau hyn yn ystod yr haf. Bydd cynorthwywyr personol neu aelodau o'r teulu yn gallu cefnogi ar ddiwrnodau allan.
Sut i archebu?	Cysylltwch ag Elen ar: elijones@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 246548

Darparwr Gwasanaeth	Breakthro
Beth fydd yn cael ei ddarparu?	Mae Breakthro eisoes yn darparu gweithgareddau yn ystod y gwyliau ac ar y penwythnos i blant anabl ar ei safle yn Nantgaredig. Byddant yn darparu 5 diwrnod ychwanegol o weithgareddau yr haf hwn ar gyfer hyd at 8 o blant bob tro. Dydd Gwener, 29 Gorffennaf, 2022 Dydd Gwener, 5 Awst, 2022 Dydd Gwener, 12 Awst, 2022 Dydd Gwener, 19 Awst, 2022 Dydd Gwener, 26 Awst, 2022
Ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth?	Plant 5-19 oed Plant anabl ag anghenion cymhleth. Dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael a bydd plant sy'n mynychu darpariaeth addysg arbenigol yn ardal Caerfyrddin yn cael eu blaenoriaethu.
Y Gost	£15 y sesiwn

2. Opsiynau Cymorth Ychwanegol

Efallai na fydd modd i rai plant gael mynediad i'r clybiau gwyliau a'r gweithgareddau yr ydym yn eu cynnig.
Mae gennyn ni gymorth ychwanegol ar gael a fydd yn cael ei gydlynu gan ein Tîm Anabledd. Mae hyn yn cynnwys:

Darparwr Gwasanaeth	Blaenau/Llys Caradog
Beth fydd yn cael ei ddarparu?	Gweithgareddau yn ystod y dydd
Ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth?	Byddwn yn darparu rhai sesiynau yn ystod y dydd i blant sydd eisoes yn mynychu ein darpariaeth seibiant awdurdod lleol na allant fynychu clybiau gwyliau.
Manylion Cyswllt ac Archebu	Siaradwch â Tanya Breeze neu Victoria Griffiths yn uniongyrchol.
Y Gost	Amherthnasol

Tîm Camau Bach
Mae Tîm Camau Bach wedi trefnu gweithgareddau a digwyddiadau dros yr haf. Mae'r gweithgareddau ar gael i deuluoedd a phlant a phobl ifanc sydd â diagnosis o anabledd neu heb ddiagnosis o anabledd.

Darparwr Gwasanaeth	Tîm Camau Bach			
Digwyddiad	**Dyddiad/Amser**	**Lleoliad**	**Yn bresennol**	**Grŵp Oedran**
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru – Taith Gerdded Esgidiau Glaw, Adrodd Storïau yn y gerddi ac adeiladu cychod (£6 y plentyn + TAW)	Dydd Iau, 14 Gorffennaf, 10:30	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Neuadd Middleton, Llanarthne, Sir Gaerfyrddin, SA32 8HN	Rhieni a Phlant (tua 12) Staff x2	Cyn-ysgol 0 – 4 oed.

Canolfan y Gwlyptir, Llanelli – Llwybr Lego, pilcota mewn pyllau ac archwilio pryfed	Dydd Llun, 25 Gorffennaf, AM	Canolfan y Gwlyptir Llanelli, Llwynhendy, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 9SH	Rhieni a Phlant (tua 12) Staff x2	11 oed ac iau
Diwrnod o Hwyl i'r Teulu	Dydd Mawrth, 2 Awst, 10:00 - 12:00	Canolfan Blant y Morfa, Heol yr Ysgol, Y Morfa, Llanelli. SA15 2AU	Clare, Catherine, Tinaya, Andrea	12 oed ac iau - Mynediad agored
Cyfeiriannu Parc Gwledig Pen-bre	Dydd Mercher, 10 Awst, 10:00 - 12:00	Parc Gwledig Pen-bre, Pen-bre, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA16 0EJ	12 o blant, Staff x3	12-16 oed
Diwrnod o Hwyl i'r Teulu	Dydd Mawrth, 16 Awst, 10:00 - 12:00	Canolfan Blant y Morfa, Heol yr Ysgol, Y Morfa, Llanelli. SA15 2AU	Clare, Suzanne, Lauren, Antonia	12 oed ac iau - Mynediad agored
Cyfeiriannu Parc Gwledig Pen-bre	Dydd Mercher, 24 Awst, 10:00 - 12:00	Parc Gwledig Pen-bre, Pen-bre, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA16 0EJ	12 o bobl ifanc a thri aelod o Staff	Ôl-16
Diwrnod o Hwyl i'r Teulu	Dydd Mawrth, 30 Awst, 10:00 - 12:00	Canolfan Blant y Morfa, Heol yr Ysgol, Y Morfa, Llanelli. SA15 2AU	Kelly, Clare, Suzanne, Catherine	12 oed ac iau - Mynediad agored

3. Clybiau Prif Ffrwd a all gefnogi Plant Anabl

Dyma glybiau gwyliau a allai gefnogi plant anabl. Dilynwch y ddolen isod i gael y wybodaeth:

Dewis - Search for Local Services - Carmarthenshire Family Information Service (gov.wales)

Bydd **Actif Sir Gâr** yn cynnal nifer o glybiau yr haf hwn ar draws Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman.
Nid yw'r dyddiadau wedi cael eu cadarnhau eto, ond mae'r cydlynwyr gweithgareddau wedi awgrymu y dylech gadw llygad ar y wefan i gael rhagor o fanylion.

https://www.actif.wales/facility-activities/childrens-activities/actif-club-school-holiday-programme/#Activity

I gael gwybodaeth am glybiau ac addasrwydd, cysylltwch â'r Ganolfan Hamdden gan ofyn am gael siarad â chydlynydd y clwb gwyliau.
I gael rhagor o wybodaeth a chymorth, cysylltwch ag:

Elen Jones
Swyddog Comisiynu (Anghenion Cymhleth)
01267 246548
elijones@sirgar.gov.uk

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Haf o Hwyl
Summer of Fun